# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Iau 26 Medi 2019**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Walter Williams

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Ann Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Pearl Evans
Y Cynghorydd Susan Davies

**Cyngor Sir:**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Y Cynghorydd Rheinallt Puw

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Einir Williams.
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyng. Dyfrig Jones.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6, Partneriaeth Ogwen: Y Cyngr. Neville Hughes a Griff Morris.

**3. Materion Brys**
**3.1** Gofeb- angen ei glanhau a thacluso'r safle erbyn Sul y Cofio.
**3.2** Clwb Ieuenctid – y Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd ychydig cyn y cyfarfod i drafod y telerau ar gyfer darparu'r gwasanaeth ym Methesda. Penderfynwyd bod y Cyngor yn fodlon ariannu'r Clwb am y flwyddyn yma. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd er mwyn cael hysbysebu'r swyddi cyn gynted a bo modd.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2019.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Offer cae chwarae Pantdreiniog–** Penderfynwyd rhoi hawl i'r Cadeirydd a'r Clerc a'r is-bwyllgor i symud ymlaen gyda hyn. Y Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod i drafod y prisiau. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd beth yw eu gofynion sylfaenol ar gyfer llawr i'r cae chwarae, gan bod llawr 'rubber mulch' a 'wetpour' yn ddrud ofnadwy. Bydd angen i'r Is-bwyllgor a'r Pwyllgor Cyllid drafod y ffigyrau ymhellach.

**5.2** Wal cae pêl-droed Parc Meurig – golwg bregus ar rhannau o'r wal. Y Clerc i gysylltu â perchennog y tir ac hefyd Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru gyda'n pryderon o gyflwr y wal. Adroddwyd bod contractwr wedi bod yno yn gwneud gwaith ar y wal.
**5.3** Arwyddion newydd Ogwen Bank – arwyddion mawr uniaith Saesneg wedi eu gosod ar ochr y ffordd. Ein sylwadau wedi eu hanfon at Swyddog Cynllunio, Cyngor Gwynedd. Cyngor Gwynedd yn trafod gyda'r perchnogion ac hefyd yr Asiantaeth Cefnffyrdd.
**5.4** Dilwyn Llwyd, Neuadd Ogwen –digwyddiad llenyddol yn gŵyl Ara Deg mis Medi. Adroddwyd bod yr ŵyl wedi bod yn wych, gyda phobl o bob man wedi ymweld â'r pentref i fynychu'r digwyddiad. Roedd yn braf gweld bwrlwm yn y pentref. Penderfynwyd anfon llythyr at Neuadd Ogwen i'w llongyfarch ar ddigwyddiad gwych.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Pawb wedi cael adroddiad ysgrifenedig gyda diweddariad ar holl waith/brosiectau'r Bartneriaeth. Fel arfer, yr adroddiad yn eithaf cynhwysfawr. Derbyniwyd yr adroddiad, ac anfon diolch i'r staff i gyd am eu holl gwaith.

**7. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**
Noson wobrwyo Ysgol Dyffryn Ogwen – y Cyng. Ann Williams wedi mynychu i gyflwyno'r rhodd gan y Cyngor. Noson dda, oedd yn cydnabod llwyddiant y disgyblion, nid yn unig yn academaidd.

**8. Lloches bws Braichmelyn**
Y Cadeirydd wedi tynnu sylw at faint o fler oedd edrychiad y lloches. Pleidleiswyd y mwyafrif (y Cyng. Ann Williams wedi gwrthwynebu) i dynnu'r lloches oddi ar y safle, a rhoi rhwystr yn ei le.

**9. John Street-newid statws**
Cwynion wedi eu derbyn am feiciau a beiciau modur yn rasio ar y ffordd gul. Yn dilyn cyfarfod ar y safle gyda swyddog Cyngor Gwynedd, y Cyng. Rheinallt Puw a'r Clerc, trafodwyd y buasai ymgynghoriad i newid statws y ffordd yn gallu gwahardd traffig yn gyfan gwbl ar y ffordd yma. Penderfynwyd ni fuasai hyn yn dderbynniol i drigolion y stryd.

**10. Maes Parcio Gerlan**
Cafwyd adroddiad bod 46 o bobl wedi galw heibio'r sesiwn a drefnwyd yn y Caban, Gerlan, yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb mewn cael lle yn y maes parcio.
Siomedig ydi'r diffyg ymateb gan Cadarn, dim byd pellach i'w adrodd mis yma.

**11. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Medi 2019'
**11.1** Llythyr gan Bwyllgor Blaenoriaid Capel Jerusalem – cais am rodd tuag at gynnal a chadw'r ardd gymunedol. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn rhoi £200 (i'w dalu gyda'r ceisiadau eraill am rodd ddechrau'r flwyddyn)
**11.2** E-bost gan Hannah Joyce, Cyngor Gwynedd – ymgynghoriad Llechi Cymru – Penderfynwyd byddai un o bob ward yn llenwi'r arolwg ar-lein.
**11.3** E-bost gan Cyng. Rheinallt Puw-wedi cael cynnig coeden Nadolig i'w roi ar Stryd Fawr. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i dderbyn y goeden, ac am ei gosod o flaen Gorffwysfan gyda goleuadau Nadolig. Trafodwyd hefyd cael plannu un i'r dyfodol yn gardd Capel Jerusalem.
**11.4** Llythyr gan Caulmert – ar ran Cartrefi Cymunedol Gwynedd – ymgynhoriad cyn gwneud cais am ganiatad cynllunio. Nodwyd yr ohebiaeth.

**11.5** Llythyr gan Cyng. Susan Davies – llythyr ymddiswyddo. Bechod mawr, pawb yn dymuno yn dda iddi ac yn diolch am ei gwasanaeth dros y pymtheg mlynedd diwethaf.
**11.6** E-bost gan Tom Simone – i gyflwyno ei hun fel Swyddog Marchnanta Lleol Partneriaeth Ogwen gyda gwahoddiad i lawnsiad wi-fi cymunedol Stryd Fawr, Bethesda. Nodwyd yr ohebiaeth.

**12. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
<u>**Penderfyniadau**</u>

| | |
|---|---|
| **C18/1159/13/AM**<br>Y Wern, Hen Fferm Gerlan | Codi 4 tŷ newydd, lôn mynediad a mynediad newydd<br>**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau drosodd |
| **C19/0008/13/LL**<br>Church of Saint Pius X and Blessed Richard Gwyn, Bethesda | Newid defnydd cyn Eglwys Gatholig yn uned fechan ar gyfer diwydiant ysgafn ar gyfer cynhyrchu caws arbenigol gyda llaw<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau. |
| **C19/0559/13/LL**<br>4 Braichmelyn, Bethesda | Estyniadau, newidiadau, creu llecynnau parcio a mynedfa newydd<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau. |
| **C19/0546/13/LL**<br>88 Ffordd Carneddi, Bethesda | Codi tŷ newydd<br>**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau drosodd. |
| **C19/0602/13/LL**<br>1 Tan y Gaer, Carneddi | Adeildau tŷ newydd deulawr ynghyd a mynedfa newydd<br>**Penderfyniad:** Gwrthodwyd |
| **C19/0601/13/LL**<br>55 a 57 Stryd Fawr, Bethesda | Newid defnydd siop a caffi'n stiwdio celfyddid ymladd<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau. |
| **C19/0604/13/R3**<br>Ysgol Gynradd Llanllechid, Ffordd Coetmor, Rachub<br>*(Cyng. Godfrey Northam yn datgan diddordeb)* | Dymchwel adeilad modiwlar presennol a chodi adeilad modiwlar newydd mewn lleoliad gwahanol a datblygiadau cysylltiedig |

**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau

**Ceisiadau**

**C19/0759/13/CC**
Bron Arfon, Llanllechid

Tocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

**C19/0761/13/LL**
Tŷ Dŵr Bach, Gerlan

Newid defnydd adeilad gwaith trin Dŵr Cymru gwag yn fwthyn gwyliau
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

**13. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Awst a Medi) | £569.34 |
| CThEM (Awst a Medi) | £142.20 |
| Neuadd Ogwen – cyfarniad gŵyl | £200.00 |
| Ysgol Dyffryn Ogwen-ysgoloriaeth | £150.00 |
| British Gas – Llys Dafydd | £28.71 |
| Un Llais Cymru - Hyfforddiant | £80.00 |
| Partneriaeth Ogwen – blodau | £16.25 |
| C Jackson – cynnal a chadw llwybrau | £120.00 |
| C Jackson – trwsio fainc | £180.00 |
| C Jackson – Mynwent Coetmor | £400.00 |
| Partneriaeth Ogwen – hysbysfwrdd | £178.80 |
| Partneriaeth Ogwen – cyfraniad llyfrgell | £2066.64 |